# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun, 15fed o Fawrth 2010 yn Siambr Dafydd Orwig, Cyngor Gwynedd, Caernarfon. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y bore.

**YN BRESENNOL**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| A M Jones (Is-gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R M Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |
| J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |

**Also present:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks, P Claydon ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân); G W Griffiths (Uwch Reolwr Gweithrediadau); G Brandrick (Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); J Brown (Rheolwr Cyllid); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); G Jones (Rheolwr Cefnogaeth y Grŵp Gweithredol); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau) ac S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt yr Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| B Blackmore | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| P C Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G James | Cyngor Sir y Fflint |
| P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| W Knightly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

Ar ddechrau'r cyfarfod, cyflwynodd y Cadeirydd flodau i Margaret Shields, Ysgrifenyddes i'r Prif Swyddogion, a oedd yn ymddeol wedi bron 25 mlynedd gyda'r Gwasanaeth. Soniodd y Prif Swyddog Tân am ymroddiad Margaret i'r Gwasanaeth, ac ar ran yr Awdurdod a'r swyddogion, dymunodd yn dda iddi yn ei hymddeoliad.

1 RHYBUDD O FATERION BRYS

1.1 Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau wedi eu cyflwyno i'r Clerc i'w hystyried.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 21ain o Ragfyr 2009 i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd adroddiad y Cadeirydd yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychodd y Cyng. S Frobisher a'r Cyng. A M Jones rhwng Rhagfyr 2009 a Chwefror 2010 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd.

5.2 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau ei bod wedi mynychu cystadleuaeth Gymreig Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc a gynhaliwyd yn Loggerheads, Sir Ddinbych ar y 7fed o Fawrth. Bu tua 130 o bobl ifanc yn cymryd rhan, ac yn y pen draw, roedd canghennau Gogledd Cymru wedi cyrraedd y tri lle ar y brig yn y tair cystadleuaeth, gyda changen Llanfairfechan yn cael eu coroni'n enillwyr dros bawb.

5.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 PENODI PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL

6.1 Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, bu'r Awdurdod yn trafod yr adolygiad o gyflogau'r prif swyddogion, gan gytuno y dylid llenwi'r swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol yn barhaol. Cafodd y broses recriwtio ei chwblhau ar Fawrth 11eg pan fu'r Panel Penodi yn cyfweld â dau ymgeisydd.

6.2 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod bod Ruth Simmons wedi ei phenodi'n Brif Swyddog Tân Cynorthwyol gyda chyfrifoldeb am Adnoddau Dynol a datblygiad y sefydliad, gan ddechrau ar Ebrill 1af.

7 AROLYGIAD O'R GWASANAETH GAN YR AWDURDOD GWEITHREDOL IECHYD A DIOGELWCH (HSE)

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am ganfyddiadau'r HSE yn dilyn arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

7.2 Atgoffwyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Tân fod y Gwasanaeth wedi cael ei ddewis yn un o'r wyth Gwasanaeth Tân ac Achub i'w arolygu trwy Brydain. Roedd yr adroddiad gan yr HSE yn cymharu'n ffafriol tu hwnt â rhai o'r Gwasanaethau eraill a arolygwyd.

7.3 Aeth yr ACFO Claydon â'r Aelodau trwy'r ddogfen, a chylchredeg diagram HSG65 a oedd yn dangos y fframwaith cyffredinol a ddefnyddir gan yr HSE. Roedd pedwar argymhelliad wedi cael eu gwneud, a bydd cynllun gweithredu'n cael ei lunio cyn bo hir a'i adolygu gyda'r HSE er mwyn pennu'r amserlenni priodol. Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda Gwasanaethau trwy'r Deyrnas Unedig, a bydd yn cael ei anfon at gyrff cynrychioliadol er mwyn galluogi'r Gwasanaeth a chyrff cynrychioliadol i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r argymhellion.

7.4 I ateb cwestiwn gan un o'r Aelodau, cadarnhawyd y bydd yr HSE yn adolygu ac yn sicrhau bod y camau'n cael eu cwblhau o'r cynllun gweithredu, ac mae'n debygol o ddychwelyd yn y dyfodol i edrych ar feysydd eraill o'r Gwasanaeth.

7.5 Gofynnodd y Cyng. M Griffith i nodyn gael ei wneud fod yr Awdurdod yn siomedig nad oedd fersiwn Gymraeg o'r adroddiad ar gael. Roedd y Prif Swyddog Tân yn rhannu pryderon y Cyng. Griffith, a nodwyd y byddai'r fersiwn Gymraeg yn cael ei chylchredeg cyn gynted ag y deuai i law.

7.6 Gofynnodd y Cyng. G C Evans a oedd diffyg mewn perthynas â chyfathrebu gyda swyddogion ar y safle a ph'un yr oedd hyn yn achosi problem. Esboniodd yr ACFO Claydon fod ymgynghori anffurfiol yn cael ei gynnal gyda swyddogion, ynghyd ag ymgynghori ffurfiol trwy'r cyrff cynrychioliadol, ac mae'r gweithdrefnau hyn yn gweithio'n dda ac maent yn gadarn iawn. Mae croeso hefyd i'r swyddogion gysylltu â'r Prif Swyddogion yn uniongyrchol os oes ganddynt unrhyw bryderon.

7.7 **PENDERFYNWYD nodi**

(i) **yr wybodaeth oedd yn adroddiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch; ac**

(ii) **y byddai'r diweddaraf am y cynnydd mewn perthynas â'r cynllun gweithredu yn cael ei adrodd i'r Awdurdod unwaith y byddai hynny wedi ei gytuno gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.**

8 DANGOSYDDION DARBODUS, STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, STRATEGAETH BUDDSODDI A PHOLISI DARPARIAETH REFENIW A PHOLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

8.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ofyn i'r Aelodau gymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi, Polisi

Darpariaeth Isafswm Refeniw, a'r Gyllideb yn fformat Gwerth Gorau ar gyfer 2010/11.

8.2 Cafodd yr Aelodau wybod hefyd am y newidiadau angenrheidiol i'r Rheoliadau Ariannol er mwyn cydymffurfio â'r newidiadau i God Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys.

8.3 Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi cyfarfod ar 1af o Fawrth 2010 ac wedi derbyn hyfforddiant ar reoli'r trysorlys, yna buwyd yn trafod yr adroddiad yn fanwl. Cadarnhaodd y Cyng. M Griffith, a oedd wedi cadeirio'r cyfarfod, nad oedd gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau sylweddol ac nad oeddent, ychwaith, wedi canfod unrhyw risgiau sylweddol yn yr adroddiad, ac y byddent yn argymell bod yr Awdurdod yn ei gymeradwyo. Fodd bynnag, fe fynegodd rhai Aelodau bryder ynglŷn â chynaliadwyedd costau refeniw'r cyfalaf am y blynyddoedd i ddod, ac awgrymu edrych yn agosach ar y maes hwn yn yr ymarferiadau gosod y gyllideb yn y dyfodol.

8.4 Ailadroddodd y Trysorydd sylwadau'r Cyng. Griffith, a chynghori y byddai angen edrych yn fanylach ar ofynion arian cyfalaf ar gyfer y dyfodol yn ystod y cyfnod nesaf o osod y gyllideb.

8.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r canlynol:**

**(i) Dangosyddion Darbodus;**
**(ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2010/2011;**
**(iii) Strategaeth Buddsoddi;**
**(iv) Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw;**
**(v) Adolygu Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod Tân Awdurdod.**

8.6 **Hefyd, nododd yr Aelodau y pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Archwilio.**

9 ALLDRO AMCANOL 2009-10

9.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am yr alldro amcanol a amcangyfrifir ar gyfer blwyddyn ariannol 2009-10. Yr arwyddion presennol yw y bydd gorwariant bychan o £3,477.

9.2 Rhoddodd y Trysorydd wybod i'r Aelodau mai'r rhagamcan oedd y byddai gwariant staffio yn is na'r disgwyl oherwydd bod y dyfarniad cyflog ar gyfer 2009-10 ar lefel is na'r hyn a ragamcanwyd yn wreiddiol.

9.3 Roedd y gorwariant o ganlyniad i:

- gostau pensiynau – oherwydd bod dau ddiffoddwr tân wedi ymddeol ar sail afiechyd sy'n golygu cost i'r cyfrif refeniw;
- costau cynnal a chadw – oherwydd cynnal profion trydanol am resymau iechyd a diogelwch;
- costau gwastraff masnachol.

9.4 **PENDERFYNWYD nodi'r gorwariant amcangyfrifedig.**

10 MESUR LLYWODRAETH LEOL – BRIFFIO AR GYFER YR AELODAU

10.1 Rhoddodd Rob Powell o Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyniad ar y Mesur Llywodraeth Leol. Mae'r Mesur yn diddymu ac yn disodli'r rhan fwyaf o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 (gwerth gorau) a rhannau o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (strategaethau cymunedol). Mae'n cynnwys dwy ran gyda chyswllt clir a bwriadol rhyngddynt – gwella gwasanaethau a chynllunio cymunedol. Nid yw archwilio ac arolygu yn berthnasol ond i wella gwasanaethau.

10.2 Y ffactorau allweddol yn y Mesur yw'r ffocws ar gymunedau, cydlyniaeth a realaeth. Dechreuodd y cam pontio o roi'r Mesur ar waith yn Nhachwedd 2009 a bydd yn rhedeg tan Fawrth 2011. Mae gweithdai wedi cael eu cynnal gydag uwch swyddogion ymhob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.

10.3 O ran yr Awdurdodau Tân ac Achub, bydd y Mesur yn darparu cyfle i:

- adolygu a sicrhau cysylltiadau allweddol gyda phartneriaid cynllunio cymunedol;
- cael cydweithredu effeithiol gyda phartneriaid;
- cael dull sy'n canolbwyntio ar y dinesydd mewn perthynas â gosod amcanion gwella;
- dyrannu cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion gwella;
- adolygu amcanion a chyllid yng ngoleuni'r trefniadau craffu a monitro; ac
- adrodd i aelodau'r cyhoedd ynglŷn â'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni.

10.4 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi neilltuo swyddogion i bob cyngor yng Nghymru, yn ogystal â'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, yr Ymddiriedolaethau Iechyd a'r Gwasanaeth Ambiwlans. Bydd y swyddogion o'r Swyddfa Archwilio sydd wedi eu neilltuo ar gyfer Gogledd Cymru yn cydweithio i sicrhau gwybodaeth gynyddol o'r rhanbarth, ac i ganolbwyntio gweithgarwch mewn modd mor economaidd ag y bo modd. Nodwyd y bydd pwyslais llawer mwy ar gydweithio. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i weithio gyda KPMG ar wybodaeth am berfformiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

10.5 Dywedodd y Clerc y dylai'r Awdurdod, wrth baratoi ar gyfer asesiad ôl-weithredol Archwilydd Cyffredinol Cymru o berfformiad yr Awdurdod (yn Nhachwedd 2010), gael y cyfle i gynnal hunanasesiad o'i berfformiad.

10.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

11 RHAGLEN REOLEIDDIOL AR GYFER ARCHWILIO PERFFORMIAD TACHWEDD 2009 HYD AT FAWRTH 2011

11.1 Cyflwynodd Rob Powell y rhaglen ar gyfer archwilio perfformiad sydd i'w ddarparu gan, ac ar ran, Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae gweithredu'r Mesur Llywodraeth Leol yn golygu bod rhaid gwahanu'r agweddau ar berfformiad a chyllid.

11.2 Oherwydd y trefniadau pontio ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol, mae'r rhaglen berfformiad yn ymdrin â chyfnod o 17 mis. Bydd y gwaith archwilio perfformiad yn adlewyrchu trefniadau cynllunio gwelliannau'r Awdurdod, yn cael eu gwneud yn gydnaws â'i amcanion gwella, ac yn cael eu teilwra fel hynny.

11.3 Y ffi am y cyfnod o 17 mis yw £40,991, sy'n cynnwys ffi ymgodol o 1.7% ac yn cyd-fynd â'r cynnydd safonol trwy Lywodraeth Leol.

11.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

Dyma oedd cyfarfod olaf Rob Powell gyda'r Awdurdod gan ei fod yn gadael Swyddfa Archwilio Cymru. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei waith dros y blynyddoedd diwethaf, a dymuno'n dda iddo i'r dyfodol.

12 STRATEGAETH ARCHWILIO ARIANNOL

12.1 Cyflwynodd Joanne West o KPMG y strategaeth ar ran KPMG a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r strategaeth yn rhestru'r gwaith sydd i'w wneud gan yr Archwilydd Penodedig dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Yr Archwilydd penodedig ar gyfer yr Awdurdod yw Anthony Barrett (Swyddfa Archwilio Cymru), ac yn ei gefnogi bydd Gilbert Lloyd o KPMG.

12.2 Mae'r Strategaeth yn rheoli'r amgylchedd y mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn gweithredu o'r fewn. Fel rhan o'r dyletswyddau, mae gofyn i'r Archwilydd Penodedig edrych ar y cyfrifon a'u hardystio, yn ogystal â sicrhau bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau cywir ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio'i adnoddau.

12.3 Bydd yr Awdurdod yn symud tuag at gyfrifydda dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) o'r flwyddyn sy'n diweddu 31ain Mawrth 2011; er y bydd hyn yn golygu rhagor o waith i'r tîm cyllid, cadarnhaodd y Trysorydd nad oedd yn rhagweld y byddai angen rhagor o adnoddau. Dan y rheoliadau newydd, bydd rhaid i'r Awdurdod ddiweddaru ei ffigyrau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag IFRS, a bydd angen datgeliadau mwy hirfaith. Bydd y gwaith sydd wrthi'n cael ei wneud yn rhoi arwydd o faint o waith fydd yna i'r Awdurdod.

12.4 Y ffi arfaethedig am y gwaith yw £26,400 ynghyd â Threth ar Werth. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 1.7%, sydd yn cyd-fynd â'r cynnydd safonol mewn llywodraeth leol drwyddo draw. Mae'n debygol y bydd cynnydd yn y ffi i ymorol am y gwaith ychwanegol y bydd angen i'r archwilwyr ei wneud.

12.5 Cadarnhaodd y Trysorydd ei fod i fynychu cyfarfod o Fwrdd y Bartneriaeth (Prif Weithredwyr awdurdodau lleol Gogledd Cymru), ac y byddai'n gofyn am ddiweddariad IFRS gan bob Awdurdod lleol.

12.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, ac y byddai adroddiad cynnydd yn cael ei ddarparu i gyfarfodydd yr Awdurdod yn y dyfodol.**

13 ADOLYGIAD O BEIRIANNAU ARBENNIG

13.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybodaeth i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod yn 2006-07 i adolygu math, lleoliad ac effeithiolrwydd yr amrywiaeth o Beiriannau Arbennig a ddefnyddir gan y Gwasanaeth.

13.2 Esboniodd yr Uwch Reolwr Gweithrediadau sut roedd y gwahanol beiriannau arbennig wedi cael eu defnyddio mewn gwahanol ddigwyddiadau. Roedd yr uned achub arbennig wedi cael ei ddefnyddio mewn digwyddiad ym Mhenmachno lle'r oedd diffoddwyr tân wedi gweithio gydag asiantaethau eraill i achub pobl o ganŵs ar yr afon. Hefyd, roedd digwyddiad wedi bod y noson cyn cyfarfod yr Awdurdod lle'r oedd yr offer achub anifeiliaid wedi cael ei ddefnyddio i achub ŵyn a oedd yn sownd mewn pibell.

13.3 Mae tîm prosiect yn gweithio ar droi tendr argyfwng, nad yw'n cael ei ddefnyddio bellach, yn Uned Lles. Bydd yn cael ei anfon i wahanol fathau o ddigwyddiadau, a digwyddiadau o wahanol hyd, er mwyn gofalu bod gan staff yr ochr weithredol gyfleusterau digonol ar gyfer newid, toiled ac ymolchi. Bydd y ddarpariaeth hon yn gwella'r trefniadau ar gyfer iechyd a lles y staff.

13.4 Mae'r offer arbenigol yn cael eu defnyddio'n rheolaidd, ac mae'r manteision i'r ochr weithredol sy'n dod o ganlyniad i'r Adolygiad o Beiriannau Arbennig, a'r buddsoddiad wedi hynny, yn sylweddol. Mae'r Adolygiad wedi rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa lle gellir cwrdd â'r heriau sy'n wynebu amgylchedd yr ochr weithredol, a'r rheini'n cynyddol gyfnewidiol ac anodd.

13.5 Nodwyd hefyd fod un o'r peiriannau ag ysgol ac esgynlawr yn cyrraedd diwedd ei oes, ac y bydd y mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ym mis Mai.

13.6 **PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Adolygiad o'r Peiriannau Arbennig.**

14 DATBLYGU AMCANION LLEIHAU RISG

14.1 Diben yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod i symud ymlaen â'r gwaith o ddatblygu amcanion lleihau risg dan dri phennawd penodol yn 2011-12 a thu hwnt.

14.2 Esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y bydd y Cynllun Lleihau Risg a Gwella ar y Cyd yn edrych ar berfformiad blaenorol, amcanion y flwyddyn gyfredol ac amcanion yn y dyfodol. Mae'r Gweithgor Cynllun Lleihau Risg wedi cyfarfod bum gwaith ers mis Tachwedd, ac wedi adolygu'r ymatebion a ddaeth i law i ymgynghoriad 2009 a thrafod yr amcanion lleihau risg ar gyfer cynlluniau'r dyfodol.

14.3 Roedd gweithgor y Cynllun Lleihau Risg wedi llunio datganiadau sefyllfa mewn perthynas â phynciau ymgynghori 2009 – sef gweithio gyda phobl ifanc, y system dyletswydd yn ôl y galw a chyd-ymateb. Roedd y datganiadau sefyllfa ynghlwm i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Awdurdod.

14.4 Hefyd, cafwyd diweddariad ynglŷn â gweithio gyda phobl ifanc. Roedd y Prif Swyddog Tân wedi cael y dasg o redeg grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu strategaeth tân ac achub ar blant a phobl ifanc ar gyfer Cymru gyfan. Roedd yr adroddiad terfynol eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cynulliad. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân mai cwrs y Ffenics oedd yn cael ei ystyried fel y prosiect blaenllaw a ddylai barhau, ac roedd arwyddion gan y Cynulliad y bydd y prosiect yn derbyn cefnogaeth ariannol.

14.5 Mae safon presenoldeb yr Awdurdod ar gyfer y Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr hefyd wedi cael ei drafod gan weithgor y Cynllun Lleihau Risg, a bydd y Panel Gweithredol yn trafod y Peiriannau yn fanylach yn ei gyfarfod ym mis Mai.

14.6 Roedd y Cynulliad yn cynnal adolygiad o System y Ddyletswydd yn ôl y Galw sy'n cael ei gadeirio gan yr Ymgynghorydd Tân ac Achub. Cynrychiolir yr Awdurdod ar y bwrdd adolygu hwnnw gan ACFO Simmons.

14.7 Ceisiwyd cymeradwyaeth gan yr Awdurdod llawn i symud ymlaen â'r gwaith o ddatblygu amcanion drafft ar leihau risg a fydd yn sail i'r ymgynghoriad cyhoeddus dros 12 wythnos nesaf yr haf nesaf. Mae'r amcanion lleihau risg penodol sy'n cael eu datblygu ar gyfer 2011-12 a thu hwnt yn ymwneud â:

- Chynaliadwyedd
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Rheoli Parhad Busnes.

14.8 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r cynnydd hyd yn hyn;**
**(ii) nodi'r datganiadau sefyllfa;**
**(iii) cymeradwyo'r gwaith o ddatblygu amcanion lleihau risg sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, cydraddoldeb ac amrywiaeth a rheoli parhad busnes.**

15 ADOLYGIAD O BOLISI CWYNION YR AWDURDOD

15.1 Esboniodd y Clerc fod angen adolygu polisi cwynion yr Awdurdod. Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wrthi'n rhagymgynghori ynglŷn â pholisi cwynion enghreifftiol newydd i'w argymell i gael ei fabwysiadu gan awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus. Bydd y polisi enghreifftiol yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir at ddiben ymgynghori. Argymhellir bod yr Awdurdod yn adolygu ac yn diweddaru ei bolisi yn unol â pholisi enghreifftiol yr Ombwdsmon, pan fydd ar gael.

15.2 **PENDERFYNWYD cytuno y byddai adolygiad o'r polisi cwynion yn cael ei gomisiynu, gan roi'r cyfrifoldeb am gynnal yr adolygiad i'r Pwyllgor Safonau, a chyflwyno adroddiad i'r Awdurdod yn ddiweddarach.**

16 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

16.1 Fel mater o lywodraethu corfforaethol da, mae'r Pwyllgor Safonau yn darparu adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub ynglŷn â'i weithgareddau yn ystod pob blwyddyn ariannol.

16.2 Roedd aelodau a chyn-aelodau wedi codi rhai materion yn y cyfarfod, fel a ganlyn:

- pryder nad oedd yr Awdurdod wedi cadarnhau'n ffurfiol benodi dau aelod annibynnol newydd. Gofynnwyd i'r Awdurdod gadarnhau penderfyniad y panel penodi a oedd wedi cyfweld â'r ddau ymgeisydd.
- siom fod yr Awdurdod wedi penderfynu peidio â rhoi cydnabyddiaeth ariannol i'r aelodau annibynnol – roedd y Clerc yn annog yr Awdurdod i ailedrych ar ei benderfyniad yn ei gyfarfod blynyddol ym mis Mehefin.

16.3 Esboniodd y Clerc fod aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi mynegi dymuniad i gael cylch gwaith ehangach. Roedd y Pwyllgor i fod i gyfarfod eto i edrych ar feysydd gwaith posib.

16.4 **PENDERFYNWYD**
**(i) cadarnhau'n ffurfiol benodi Celia Blomeley a Jane A Eyton-Jones yn aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o bedair mlynedd rhwng Ionawr 2010 a Rhagfyr 2013;**
**(ii) ailystyried rhoi cydnabyddiaeth ariannol i'r aelodau annibynnol yng nghyfarfod blynyddol yr Awdurdod;**
**(iii) nodi'r adroddiad, a chefnogi rôl ragweithiol ac ehangach i'r Pwyllgor.**

17 YMGYNGHORIAD AR STRWYTHURAU GWLEIDYDDOL GAN LYWODRAETH Y CYNULLIAD

17.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ofyn i'r Awdurdod nodi'r papur ymgynghorol ynglŷn â chraffu a strwythurau gwleidyddol mewn Llywodraeth Leol a ryddhawyd gan y Cynulliad.

17.2 Dywedodd y Clerc y dylai ymateb yr Awdurdod i Lywodraeth y Cynulliad ddatgan na ddylai pwerau gweinidogion i ymyrryd gael eu defnyddio ond mewn achosion eithafol a phan fetho popeth arall, ac yn unol â phrotocol clir. Cynghorwyd yr Awdurdod hefyd i ymateb y bydd yn cydweithredu â chyrff cyhoeddus eraill, megis awdurdodau unedol, mewn gwaith craffu effeithiol a chyfranogiad cymunedol, cyhyd â bod modd rheoli'r trefniadau a'u bod yn gymesur.

17.3 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys y ddogfen ymgynghorol, a chytuno bod y Clerc yn darparu ymateb i Lywodraeth y Cynulliad ar ran yr Awdurdod.**

18 STRWYTHUR PEILOT DIOGELWCH TÂN

18.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am gynllun peilot Strwythur newydd ar gyfer Diogelwch Tân a fydd yn cael ei roi ar waith ar y 5ed o Ebrill 2010.

18.2 Esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod dwy brif gangen i'r swyddogaeth Diogelwch Tân, sef Deddfwriaethol a Chymunedol. Bydd y cynllun peilot yn golygu ad-drefnu'r swyddogion sydd eisoes yn gweithio yn y meysydd hynny er mwyn eu galluogi i weithio'n fwy hyblyg a darparu gwell gwasanaeth.

18.3 **PENDERFYNWYD nodi bod y Gwasanaeth yn rhedeg Strwythur Peilot ar gyfer Diogelwch Tân trwy Ogledd Cymru, a bydd yn cael ei werthuso a'r canlyniadau'n cael eu rhoi i'r Aelodau.**

19 COFNODION CYFARFODYDD

19.1 Cyflwynwyd, er gwybodaeth i'r Awdurdod, gofnodion, nad oedd wedi eu cadarnhau, o'r cyfarfodydd canlynol:

- cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar y 1af o Chwefror 2010
- cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar y 18fed o Chwefror 2010

19.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion nad oedd wedi eu cadarnhau.**

20 Y CYLCHGRAWN 'ER GWYBODAETH'

20.1 Cyflwynodd ACFO Hanks y cylchgrawn 'Er Gwybodaeth' ar ei newydd wedd i'r Awdurdod. Esboniodd fod cost gychwynnol o £900 am y diwyg newydd, ond y byddai'r gost am ei gynhyrchu yn llai na £600 y flwyddyn.

20.2 **PENDERFYNWYD derbyn y cylchgrawn 'Er Gwybodaeth'.**

**RHAN II**

21 Y DDARPARIAETH RHEOLWYR AR YR OCHR WEITHREDOL

21.1 Cyflwynodd ACFO Claydon yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am ddatblygiad parhaus y ddarpariaeth rheolwyr pwrpasol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a'r costau posib.

21.2 Ym Mawrth 2008, cytunodd yr Awdurdod y dylid, fel rhan o'r Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2009/10, gynnal Adolygiad o Ddarpariaeth Rheolwyr ar yr Ochr Weithredol i edrych ar y ffordd y mae'r Gwasanaeth yn darparu goruchwyliaeth gan reolwyr canol ac uwch mewn digwyddiadau brys.

21.3 Bwriad yr adolygiad oedd edrych ar hyfywedd 'opsiwn ymateb pwrpasol' a fyddai'n gwella sicrwydd yr ochr weithredol mewn digwyddiadau, ac effeithlonrwydd y Gwasanaeth.

21.4 Esboniodd ACFO Claydon na fyddai neb yn cael ei drosglwyddo o delerau ac amodau'r Llyfr Llwyd i delerau ac amodau'r Llyfr Gwyrdd, ac nad ymarferiad i arbed costau oedd hyn. Cadarnhawyd y byddai llawer o ymgynghori gyda chyrff cynrychioliadol cyn gwneud unrhyw newidiadau.

21.5 **PENDERFYNWYD:**
**(i) nodi'r wybodaeth a ddarparwyd; a**
**(ii) derbyn adroddiadau rheolaidd ynglŷn â'r cynnydd mewn perthynas â'r bwriadau a'r costau diweddaredig.**